# I'r ffair



Tric a Chlic



Un noson aeth y ddau ffrind i'r ffair.





Rhaid oedd mynd ar y ceffylau bach ...



rownd a rownd a lan a lawr. O, am hwyl a sbri!





Rhaid oedd saethu'r tuniau ...



bwm, bwm, bang ...
ac ennill un o'r teganau.





Rhaid oedd siglo ar y siglen ...



ymlaen, ymlaen, ymlaen,
yn ôl, yn ôl ac yn ôl.





Rhaid oedd bwyta'r
afalau taffi a'r cnau ...



blasus iawn!





Roedd hi nawr yn saith o'r
gloch a rhaid gadael y ffair
a mynd am adref.

Roedd hi wedi bod yn noson grêt yn llawn hwyl a sbri!



